

**Y CABINET**  
**16 TACHWEDD 2021**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar Zoom ddydd Mawrth 16 Tachwedd 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr Glyn Banks, Chris Bithell, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones a Billy Mullin.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Refeniw a Chaffael, Rheolwr Budd-Daliadau, Rheolwr Strategaeth Tai, Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Swyddog Datblygu Polisi – Cydraddoldeb, Prif Gyfrifydd, ac Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democraidaidd.

**YMDDIHEURIADAU**

Y Cyngorydd Derek Butler, y Prif Weithredwr a Phif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**

Y Cyngorydd Mike Peers.

**60. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cyngorydd Bithell gysylltiad personol ag eitem 18 ar y rhaglen – Adolygiad o'r Cyllid Craidd.

**61. COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021 eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

**62. STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 – 2024/25**

Cyflwynodd y Cyngorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a gofynnodd i'r Cabinet argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r strategaeth.

Mae'r adroddiad yn egluro nodau allweddol y strategaeth a chynnwys pob adran, a pham bod angen y strategaeth.

Yn unol â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus), mae'n rhaid i awdurdodau bennu cyfres o ddangosyddion darbodus. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys manylion Dangosyddion Darbodus y Cyngor ar gyfer 2022/23 – 2024/25.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion y tablau yn yr atodiad sy'n ymwneud â Dangosydd Darbodus: Amcangyfrif o'r Gwariant Cyfalaf mewn miliynau o bunnau, Cyllido Cyfalaf mewn miliynau o bunnau, Isafswm Darpariaeth Refeniw mewn miliynau o bunnau, Dangosydd Darbodus: Amcangyfrif o'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol mewn miliynau o bunnau, Dangosydd Darbodus: Amcangyfrif o'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol mewn miliynau o bunnau, Dangosydd Darbodus: Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol, a Dangosydd Darbodus: Cyfran o'r Costau Cyllido i'r Ffrwd Refeniw Net.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'i hargymell i'r Cyngor Sir;
- (b) Cymeradwyo ac argymell y canlynol i'r Cyngor Sir:
  - Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/23 – 2024/25 fel y manylir yn nhablau 1, a 4 – 7 ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf
  - Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i wneud newidiadau rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân, o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf)

### **63. RHAGLEN GYFALAF 2022/23–2024/25**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022/23 – 2024/25 i'w hargymell i'r Cyngor.

Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cynnwys buddsoddiadau mewn asedau ar gyfer y tymor hir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n rhoi gwerth am arian. Mae'r asedau'n cynnwys adeiladau (fel ysgolion, cartrefi gofal a chanolfannau dydd), isadeiledd (fel priffyrdd, rhwydweithiau TG a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff) ac asedau nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor (fel gwaith i wella ac addasu cartrefi sector preifat). Mae'r buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â chynlluniau gwasanaethau a Chynllun y Cyngor.

Mae'r adroddiad yn rhannu Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor yn dair adran:

1. Statudol / Rheoleiddiol – dyraniadau ar gyfer gwaith rheoleiddiol a statudol
2. Asedau wedi'u Cadw – dyraniadau i ariannu gwaith angenrheidiol i isadeiledd er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth a busnes
3. Buddsoddi – dyraniadau i ariannu'r gwaith angenrheidiol i ail-lunio gwasanaethau i wneud arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u nodi mewn cynlluniau busnes portffolios a buddsoddi mewn gwasanaethau fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor

Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o raglen y Cyngor wedi'i hariannu gan dderbyniadau cyfalaf a grantiau. Mae gallu'r Cyngor i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol yn heriol gan fod nifer yr asedau sydd gan y Cyngor i'w gwaredu yn lleihau. Bydd y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i nodi asedau i'w gwerthu a ffynonellau eraill o arian, fel grantiau penodol a chyfraniadau refeniw. Fodd bynnag, bydd ar y Cyngor angen defnyddio benthycia darbodus i gyllido mwy o'r rhaglen i'r dyfodol, yn arbennig rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif

a bydd angen ariannu cynlluniau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen fuddsoddi yn defnyddio benthycia darbodus hefyd.

O ystyried y sefyllfa bresennol wrth bennu'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf (2022/23 – 2024/25), mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gynlluniau newydd arfaethedig i'w cynnwys oherwydd, os na fydd ffynonellau ariannu eraill yn dwyn ffrwyth, bydd yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio benthycia darbodus i ariannu gweddill y rhaglen.

Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei hymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050 ac i weithio tuag at sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor yng Nghynllun y Cyngor yw dod yn gyngor sero net erbyn 2030 a chefnogi gweithgareddau datgarboneiddio ehangach ar draws y sir. Mae'r rhaglen gwaith cyfalaf yn chwarae rhan allweddol i gyflymu'r newid tuag at gyrraedd y targed. Mae cynnwys y flaenoriaeth honno yn y rhaglen yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion llawn y tablau yn yr adroddiad, yn arbennig tabl 4 sy'n darparu manylion y dyraniad arfaethedig ar gyfer 2022/23-2024/25. Eglurodd fod y dyraniad blynyddol ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd wedi cynyddu o £600,000 i filiwn o bunnau. Mae tabl 5 yn darparu crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf, gan fanylu ar sut y bydd y rhaglenni'n cael eu hariannu.

Croesawodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad gan dynnu sylw at gynlluniau fel y ddarpariaeth hamdden a llyfrgell, gosod TCC newydd, addasiadau i gartrefi maeth, y cyfleuster cyflawni ar y cyd, gorsaf trin gwastraff Standard Yard, datgarboneiddio'r fflyd, Cartref Gofal Preswyl Croes Atti ac ysgol garbon niwtral gyntaf y Cyngor. Roedd hefyd yn croesawu'r buddsoddiad mewn ysgolion eraill. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i helpu'r bobl fwyaf diamddiffyn yn y sir, ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â digartrefedd a chanol trefi.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r adroddiad, a oedd yn darparu manylion rhaglenni cyffrous ar gyfer trigolion y sir. CJ – rhaglen gyffrous i'r dyfodol ar gyfer pobl Sir y Fflint. Cynlluniau a phrosiectau amrywiol.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r dyraniadau a'r cynlluniau yn Nhabl 3 ar gyfer adrannau Statudol / Rheoleiddiol ac Asedau Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2022/23–2024/25;
- (b) Cymeradwyo'r cynlluniau a nodir yn Nhabl 4 ar gyfer adran fuddsoddi Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2022/23 - 2024/25;
- (c) Nodi bod y diffyg mewn cyllid i ariannu cynlluniau yn 2022/23, 2023/24 a 2024/25 yn Nhabl 5 ar hyn o bryd yn y broses gymeradwyo yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd opsiynau, yn cynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os ydynt ar gael), benthycia darbodus neu ail-drefnu camau cynlluniau yn cael eu hystyried yn ystod 2022/23 ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau ar y Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol; ac

- (d) Ystyried a chymeradwyo'r cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 6 ar gyfer yr adran sy'n cael ei hariannu'n benodol gan Raglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor, a fydd yn cael ei hariannu'n rhannol trwy fenthyca.

#### **64. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb a'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd fis Ebrill 2020, i fodloni gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'u hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nod yr amcanion cydraddoldeb yw mynd i'r afael â'r materion a'r meysydd mwyaf arwyddocaol o anghydraddoldeb sy'n wynebu pobl gyda nodweddion a ddiogelir (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Mae dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru yn cynnwys cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth pob blwyddyn, sy'n amlinellu'r cynnydd wrth gwrrd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cynnydd y Cyngor wrth roi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith a chyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn ystod 2020/2021.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) mai hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf sy'n amlinellu'r cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb y Cyngor a'i fod yn cynnwys gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog. Eglurodd y Swyddog Datblygu Polisi – Cydraddoldeb fod y cynnydd sydd wedi'i wneud i gyflawni'r saith amcan cydraddoldeb wedi'i amlinellu yn yr atodiad i'r adroddiad. Yn ogystal, mae'r adroddiad eglurhaol yn amlinellu'r llwyddiannau wrth ymgymryd â'r dyletswyddau cydraddoldeb yn 2020/21.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cyngor yn gweithio drwy geisio annog pob gweithiwr i ddarparu gwybodaeth am eu rhyw, ond bod yn rhaid cydnabod nad yw pawb yn teimlo'n gyfforddus yn darparu'r wybodaeth honno.

Croesawodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad, yn enwedig yr adran yn ymwneud â chaffael a fanylir arni yn yr atodiad.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r cynnydd yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb;
- (b) Cefnogi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/2021, cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar wefan y Cyngor.
-

## **65. PROSPECTWS ANGHENION TAI SIR Y FFLINT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o ofyniad Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol gynhyrchu prospectws anghenion o ran tai a fyddai'n hysbysu'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.

Byddai'r prospectws yn hysbysu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, yn siapio'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol drwy nodi blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol ac yn darparu canllaw o ran y math o dai sydd eu hangen ac yn lle.

Y gobaith yw y bydd darparwyr tai yn cyfeirio at y prospectws wrth iddynt edrych ar ddatblygu safleoedd tai fforddiadwy er mwyn iddynt gynllunio i ddarparu cynlluniau sy'n cyflawni blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol ac yn diwallu anghenion tai'r ardal yn well.

Mae Prospectws Anghenion Tai drafft Sir y Fflint wedi'i lunio ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y tîm Digartrefedd a'r Adain Gynllunio ac mae'n adlewyrchu gofynion y Cyngor ar hyn o bryd ar wasanaethau a'r uchelgeisiau sydd yn Strategaeth Tai Sir y Fflint 2019-24.

Eglurodd Rheolwr y Strategaeth Dai fod hyn yn darparu ffordd gydlynus i gymdeithasau tai, Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Leol gydweithio i sicrhau bod y mathau cywir o dai yn cael eu darparu i bobl leol. Mae'r prospectws yn darparu manylion y sefyllfa bresennol, gan gynnwys y pwysau presennol mewn perthynas â thai.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad sy'n delio â phob agwedd ar yr angen o ran tai yn y sir, yn enwedig ar gyfer trigolion diamddiffyn. Roedd hefyd yn falch o weld cydnabyddiaeth ar gyfer yr angen am eiddo o fwy o faint.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys Prospectws Anghenion Tai Sir y Fflint.

## **66. POLISI GRANT CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad ac eglurodd fod Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yn rhoi dyletswydd orfodol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl. Mae'r grant ar gael i addasu neu ddarparu cyfleusterau i unigolion anabl mewn annedd.

Fel rhan o adolygiad Archwilio Mewnol o wasanaeth y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl fis Mehefin 2018, nodwyd fod angen adolygu'r polisi presennol er mwyn gwneud y broses a'r manylion yn gliriach ac yn haws eu deall.

Ers hynny mae gwaith wedi'i wneud i nodi a gweithredu gwelliannau i'r broses er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth ac ym mis Medi 2020 cyflwynwyd a chymeradwywyd argymhellion ar gyfer eithriadau i'r polisi sydd, erbyn hyn, wedi'u cynnwys yn y polisi diwygiedig.

Eglurodd y Rheolwr Budd-Daliadau fod llawer o waith hefyd wedi'i wneud i sicrhau bod cwsmeriaid, a gweithwyr proffesiynol sydd yn eu cefnogi, yn derbyn

yr holl wybodaeth berthnasol ar y cyfle cyntaf posibl. Mae'r gwaith hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y polisi diwygiedig. Eglurodd mai'r grant mwyaf sydd ar gael yng Nghymru yw £36,000 fesul bob cais a wneir o fewn cyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag, mae modd cyflwyno ceisiadau eraill o fewn y cyfnod hwnnw os yw cyflwr y cwsmer wedi newid. O ran ceisiadau ar gyfer gwaith addasu dan £10,000, nid oes ar yr achosion canolig hyn angen prawf modd bellach. Ar gyfer yr holl geisiadau eraill, byddai swm y grant yn amrywio o sero i'r uchafswm yn dibynnu ar gost y gwaith a gymeradwywyd ac amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell yr amserlenni diwygiedig ar gyfer darparu addasiadau fel y nodir yn yr atodiad.

### **PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r adroddiad a'r Polisi Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl diwygiedig.

## **67. CYNLLUN AR GYFER SHOTTON**

Cyflwynodd yr Uwch-Swyddog Gweithredol yr adroddiad ac eglurodd fod y Cabinet, ym mis Chwefror 2021, wedi cefnogi datblygiad 'Cynllun ar gyfer Shotton' - gyda Grŵp Llywio amlasiantaeth yn goruchwyllo'r gwaith cynhyrchu a darparu.

Mae'r rhaglen weithgareddau yn Shotton eisoes wedi gweld llwyddiannau, a amlinellir yn yr adroddiad, ynghyd â chynigion ar gyfer y camau nesaf a fyddai'n arwain at ymgysylltu'n ehangach gyda sefydliadau partner a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau cyflenwi manylach. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r risgiau i'w hystyried a'r camau lliniaru i'w cytuno arnynt. Mae'r risgiau yn bennaf yn ymwneud ag adnoddau a gallu; rolau a chyfrifoldebau sefydliadau partner ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid hyd yma; a datblygu cynllun realistig a rheoli disgwyliadau.

Byddai ymgysylltu â mwy o sefydliadau partner a budd-ddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolaeth ehangach ar y Grŵp Llywio, yn gwella'r cyfle dan y cynllun i drefnu perthnasau partneriaeth i gydweithio i gyrraedd nodau a rennir ac i gyfuno adnoddau i fanteisio i'r eithaf ar y gallu i ddarparu canlyniadau blaenoriaeth lleol.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo cynllun strategol lefel uchel, 'Cynllun ar gyfer Shotton', i bennu cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith yn Shotton o rŵan tan 2030;
- (b) Cefnogi gwaith pellach i ymgysylltu gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid ehangach i ddatblygu cynlluniau cyflawni manylach a chraidd sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n cyd-fynd â'r pedwar amcan strategol, fel y nodir yn y Cynllun ar gyfer Shotton;
- (c) Nodi'r risgiau a'r camau lliniaru;
- (d) Cefnogi'r ddogfen gyfathrebu/cyhoeddusrwydd ragweithiol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad a'r cynlluniau cysylltiedig.

## 68. **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (MIS 6)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn darparu diweddariad misol ar gyllideb Cronfa'r Cyngor a chyllideb y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu rhagolwg o sefyllfa derfynol blwyddyn ariannol 2021/22.

Mae'r adroddiad yn nodi y bydd y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella'r adenillion yn sgil cynllunio arbedion effeithlonrwydd a rheoli costau, fel a ganlyn:

### **Cronfa'r Cyngor**

- Gwarged gweithredol o £0.227 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflog a fyddai'n cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), a oedd yn newid ffafriol o £0.045 miliwn ers ffigur y gwarged a adroddwyd ym Mis 5, sef £0.182 miliwn
- Rhagwelir y bydd balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2022 yn £6.322 miliwn

### **Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelir y bydd gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.755 miliwn yn uwch na'r gyllideb
- Rhagwelir mai'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2022 fydd £3.717 miliwn

Mae yna bwysau sylweddol o hyd ar leoliadau y tu allan i'r sir, yn sgil effeithiau blwyddyn gron lleoliadau newydd a wnaethpwyd yn 2020/21, yn cynnwys nifer o leoliadau drud a gytunwyd arnynt fis Mawrth ar ôl pennu'r gyllideb ar gyfer 2021/22. Mae cyfraniad o £0.500 miliwn wedi'i wneud o Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol, sy'n gadael gorwariant rhagamcanol o £0.851 miliwn ar gyfer gweddill y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n debygol o gynyddu gan fod 6 mis arall o'r flwyddyn ar ôl.

Rydym yn aros am ragor o fanylion gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddiad ynglŷn â £42.72 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac lechyd ar draws Cymru. Byddai'r grant yn cefnogi Gwasanaethau Plant, lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, taliadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, ymyrraeth gynnar ac atal, ynghyd â gwella hysbysebu a recriwtio ar gyfer swyddi gofal cymdeithasol. Byddai modd neilltuo'r cyllid ar gyfer pwysau ariannol presennol y portffolio, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa derfynol.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr adroddiad hefyd yn manylu ar y sefyllfa fesul portffolio; amrywiadau sylweddol y mis hwnnw; cyflawniad arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn; cyllid brys, cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Eglurodd y rhesymau dros y symudiad ffafriol yn y gorwariant rhagamcanol, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad a'r effaith ariannol ragamcanol ar gyllideb 2021/22.

### **69. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2021/22 (MIS 6)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i Raglen Gyfalaf 2021/22 ers ei gosod fis Rhagfyr 2020 hyd at ddiwedd Mis 6 (Medi 2021), ynghyd â'r gwariant hyd yma a'r sefyllfa derfynol amcanol.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi gweld gostyngiad net o £2.174 miliwn yn y gyllideb yn ystod y cyfnod, sy'n cynnwys:

- Cynnydd net o £2.435 miliwn yn y rhaglen (Cronfa'r Cyngor (£6.200 miliwn), y Cyfrif Refeniw Tai (£3.765 miliwn))
- Swm i'w ddwyn ymlaen i 2022/23, wedi'i gymeradwyo ym mis 4 (£4.099 miliwn o Gronfa'r Cyngor)
- Arbedion a nodwyd ym Mis 6 (£0.510 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor)

Roedd y gwariant gwirioneddol yn £37.698 miliwn.

Mae'r derbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn ail chwarter 2021/22, ynghyd ag arbedion a nodwyd, yn dod i £1.352 miliwn. Mae hynny'n rhoi gwagedd rhagamcanol diwygiedig yn y Rhaglen Gyfalaf o £4.147 miliwn ym mis 6 (o gymharu â gwagedd o £2.795 miliwn ym Mis 4) ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2021/22-2023/24, cyn gwireddu derbyniadau cyfalaf ychwanegol a/neu ffynonellau cyllido eraill.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion y tablau yn yr atodiad.

## **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r adroddiad;
- (b) Cymeradwyo'r addasiadau dwyn ymlaen;
- (c) Cymeradwyo'r dyraniad ychwanegol.

### **70. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2022/23**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod gosod Sylfaen Treth y Cyngor yn rhan ganolog o'r broses i osod y Gyllideb Refeniw a Threth y Cyngor ar gyfer 2022/23, gan ganiatáu i'r Cyngor, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned gyfrifo Praesept Treth y Cyngor at y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw a Chaffael fod y sylfaen wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar 65,194 o eiddo Band 'D', ar ôl ystyried cyfanswm yr eiddo a fyddai'n gorfod talu Treth y Cyngor, gan dynnu'r rhai sydd wedi'u heithrio rhag talu Treth y Cyngor neu lle rhoddir gostyngiadau statudol.



Mae gosod sylfaen y dreth yn seiliedig ar 65,194 o eiddo Band 'D' hefyd yn cynrychioli twf ymylol yn y Sylfaen Dreth o 0.26% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a oedd gyfwerth â chynnydd o 168 eiddo Band D ar ôl ystyried symudiad naturiol mewn gostyngiadau ac eithriadau.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Sylfaen Dreth yn seiliedig ar 65,194 o eiddo Band D at ddibenion gosod treth ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23;
- (b) Parhau i osod disgownt o 'ddim' ar gyfer eiddo dan unrhyw un o'r Dosbarthiadau Rhagnodedig (A, B neu C) a bod hynny'n berthnasol i'r sir gyfan;
- (c) Parhau i osod premiwm o 50% ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi sy'n dod o dan gynllun Premiwm Treth y Cyngor yn 2022/23.

**71. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU YNGHYLCH TRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANDDARPAR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch newidiadau posibl i'r system drethu leol, gyda'r nod o gefnogi awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety hunanddarpar ar gymunedau.

Ychwanegodd y Rheolwr Refeniw a Chaffael fod Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am ein barn ynghylch:

- Pa mor effeithiol yw premiymau i fynd i'r afael â materion tai
- Sut mae modd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r premiwm i helpu i aildefnyddio eiddo gwag neu segur
- Sut y dylai'r arian a gynhyrchir gan y premiwm gael ei ddefnyddio ac a ddylai awdurdodau lleol fod yn fwy tryloyw ynghylch sut mae'r arian a gynhyrchir wedi'i wario
- Oedd y premiwm uchaf o 100% yn briodol? Os nad oedd, beth fyddai'n briodol a theg?
- Beth oedd yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar lety hunanddarpar
- Y meini prawf a'r trothwyon presennol ar gyfer diffinio eiddo fel llety hunanddarpar ac felly yn agored i dalu trethi busnes yn hytrach na Threth y Cyngor
- Cymhwystra llety hunanddarpar ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach o 100% unwaith mae'r perchnogion yn gorfod talu Trethi Busnes

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad mae'r swyddogion wedi adolygu'r papur ymgynghori ac wedi cynnwys yr ymateb i'r uchod yn yr adroddiad i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## **72. ADOLYGIAD ARCHWILIO CYMRU O ADFYWIO CANOL TREFI**

Cyflwynodd Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad ac eglurodd fod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o adfywio canol trefi fis Medi 2021. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion i bob lefel o lywodraeth ymateb iddynt ac, yn unol â phrotocol y Cyngor, mae'r ymatebion ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r system bwyllgora cyn eu cyflwyno i Archwilio Cymru.

Mae'r adroddiad yn nodi chwe argymhelliad, ac mae gofyn i'r llywodraeth leol ymateb i dri ohonynt. Mae'r ymateb i bob argymhelliad wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ar 9 Tachwedd 2021, gyda'r Cabinet yn ei ystyried ar 16 Tachwedd a'r Pwyllgor Archwilio yn ei ystyried ar 17 Tachwedd.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi argymhellion Archwilio Cymru a chymeradwyo'r ymateb arfaethedig.

## **73. ADOLYGU'R STRATEGAETH TOILED AU LLEOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad ac eglurodd fod Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn darparu graddfeydd amser penodol y mae'n rhaid cadw atynt mewn perthynas â pharatoi ac adolygu strategaethau toiledau lleol. Mae'n rhaid cadw at y raddfa amser statudol hyd yn oed os yw awdurdod lleol yn penderfynu, am resymau gweithredol, i gyhoeddi adolygiad neu ddiweddarau'r strategaeth yn o'u gwirfodd rhwng pwyntiau adrodd allweddol o fewn y raddfa amser statudol.

Cymeradwywyd Strategaeth Toiledau Lleol Sir y Fflint fis Mai 2019. Mae canllawiau cenedlaethol yn nodi y dylid adolygu'r polisi bob dwy flynedd o ddyddiad cyhoeddi neu adolygu'r strategaeth, ac o fewn blwyddyn i etholiad llywodraeth leol cyffredinol.

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Toiledau Lleol yn unol â'r gofynion statudol, ac yn pennu'r dull ar gyfer cynnal adolygiad pellach yn 2022/2023.

Eglurodd Rheolwr y Strategaeth Priffyrdd fod lleoliadau perthnasol, a nodir yn yr atodiad i'r adroddiad, yn arddangos sticer logo toiled wrth fynedfeydd i nodi'r toiledau sydd ar gael yn y lleoliad hwnnw at ddefnydd y cyhoedd.

### **PENDERFYNWYD:**

Cefnogi'r adolygiad a'r cynnydd hyd yma yn erbyn cynllun gweithredu'r Strategaeth Toiledau Lleol.

**74. MODERNEIDDIO YSGOLION – YMGYNGHORIAD YNGHYLCH ESTYN SAFLEOEDD YSGOL GYNRADD DRURY AC YSGOL GYNRADD PENYFFORDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad sy'n ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i ymgynghori drwy God Trefniadaeth Ysgolion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ynghylch estyn dwy ysgol – Ysgol Gynradd Drury ac Ysgol Penyffordd.

Mae'r cod yn nodi gofynion addasiadau rheoledig i ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol mewn perthynas ag estyn safle ysgolion.

Mae'r prosiectau buddsoddi arfaethedig yn Ysgol Gynradd Drury ac Ysgol Gynradd Penyffordd yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer ymgynghori ynghylch cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgolion drwy fframwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

Yn Ysgol Gynradd Drury byddai nifer y lleoedd yn cynyddu i 180. Yn Ysgol Penyffordd byddai nifer y lleoedd yn cynyddu i 375.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo ymgynghoriad drwy God Trefniadaeth Ysgolion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ynghylch estyn safleoedd Ysgol Gynradd Drury ac Ysgol Penyffordd.

**75. ARFER PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth ynglŷn â'r camau gweithredu a gymerwyd dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Gwasanaethau Stryd a Chludiant**

- **Gwaharddiad Arfaethedig ar Aros ar Unrhyw Adeg – Ffordd Owen, Ffordd Gwynedd, Ffordd Glyndŵr, Ffordd Edwin, Stryd Fawr, Parc Sant Pedr a Connah's Quay Road, Llanelwain – Cyngor Sir y Fflint**  
I hysbysu'r Aelodau o'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn hysbysebu'r Gwaharddiad ar Aros ar y ffyrdd uchod.
- **Diwygiad i reoliadau mynwentydd Cyngor Sir y Fflint**  
Mae Rheoliadau Mynwentydd Cyngor Sir y Fflint yn llywodraethu'r gweithrediadau a wneir o fewn ei fynwentydd ac yn darparu arweiniad ar yr hyn a ddisgwylir gan ymwelwyr a'r rheiny sy'n berchen ar feddau yn y mynwentydd. Adolygir y rheoliadau hyn yn gyson i sicrhau eu bod yn gyfoes, yn cyrraedd safonau'r diwydiant ac yn addas i'r diben. Mae'r diwygiadau a amlinellir yn sicrhau mai dyma fydd yr achos yn 2021-2015.

**Refeniw**

- **Rhent Tai Cyngor – Cais i Ddileu Ôl-ddyledion Rhent**  
Mae'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Aelod Cabinet Tai ac Asedau yn gyfrifol am ystyried achosion i ddileu dyledion dros £5,000.

Mae penderfyniad i ddileu ôl-ddyledion rhent wedi'i wneud mewn perthynas â thenant sy'n destun Gorchymyn Methdal. Mae ôl-ddyledion rhent o £7,268.89 wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Methdal ac o ganlyniad i'r dyfarniad nid oes modd ad-ennill yr ôl-ddyledion bellach.

- **Rhent Tai Cyngor – Dileu Hen Ôl-Ddyledion Rhent yn Dilyn Achos o Droï Allan**

Mae Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Adran 5.2) yn nodi bod drwgddyledion a dyledion na ellir eu hadennill, sydd dros £5,000, yn cael eu dileu drwy bwerau dirprwyedig ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol.

Mae'r penderfyniad i ddileu dyled yn ymwneud ag un achos o rent heb ei dalu, lle bu i'r tenant adael yr eiddo cyn cael ei droï allan i ddod â'r denantiaeth i ben. Yn dilyn camau cyfreithiol i ddiweddu'r denantiaeth, ystyrir nad oes modd ad-ennill yr ôl-ddyledion rhent o £10,100 ac nad oes unrhyw obaith o sicrhau taliad.

### **Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi**

- **Cytundeb Perfformiad Cynllunio**

Ceisiwyd pwerau dirprwyedig i ymrwmo i gytundeb perfformiad cynllunio i gwrdd â chostau'r Cyngor wrth ddarparu cyngor cyn ymgeisio ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu a Chais Cynllunio ar gyfer Prosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol.

### **Tai ac Asedau**

- **Dynodi tir ym meddiant y Cyngor yn Llwybr Troed Cyhoeddus ar ran o reilffordd segur rhwng Llwybr Troed Cyhoeddus rhif 5 a 6 yng nghymuned Bwcle yn ôl-weithredol**

Dynodi tir sydd ar hyn o bryd yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint yn Llwybr Troed Cyhoeddus, fel y dangosir gyda llinell doredig ddu rhwng pwyntiau A a B ar y cynllun.

- **Trosglwyddo Ased Cymunedol, Canolfan Ieuenctid a Chwt Sgowtiaid Penyffordd**

Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Ieuenctid a Chwt Sgowtiaid Penyffordd, Ffordd Penarlâg, Penyffordd, Sir y Fflint.

### **Addysg ac Ieuenctid a Thai ac Asedau**

- **Gwaredu Adeiladau Diangen**

Datganiad ar y cyd o Adeiladau Diangen – trosglwyddo adeiladau Cyngor Sir y Fflint, sef Canolfan Ieuenctid (Addysg ac Ieuenctid) a Chwt Sgowtiaid Penyffordd (Tai ac Asedau), Ffordd Penarlâg, Penyffordd, Sir y Fflint ar ffurf Trosglwyddiad Ased Cymunedol i Grŵp Cymunedol Penyffordd a Phenymynydd (Cwmni Buddiannau Cymunedol) ar brydles o 27 o flynyddoedd.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 –  
YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**76. ADOLYGIAD O'R CYLLID CRAIDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi, yn y gorffennol, darparu cyllid i rai sefydliadau trydydd sector drwy Gytundebau Cyllid Craidd.

Mae' rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid craidd wedi bod yn gwneud hynny ers sawl blwyddyn ac o'r herwydd mae'n bryd adolygu'r trefniadau cyllido a'u haddasrwydd i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Dechreuodd yr adolygiad o gyllid craidd yn 2019 ac mae bellach wedi'i gwblhau. Mae canlyniadau'r adolygiad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Cefnogi ailenwi'r gronfa yn "Cyllid Strategol" i adlewyrchu defnydd newidiol y gronfa i gomisiynu gwasanaethau;
- (b) Cymeradwyo'r dyraniad cyllid a nodir yn Atodiad 3 a rhoi'r gorau i gyllido un sefydliad;
- (c) Bod y tanwariant presennol a'r tanwariant i'r dyfodol yn cael ei gadw i ddarparu hyblygrwydd i gefnogi'r trydydd sector, yn cynnwys gwneud taliadau untro yn ôl yr angen;
- (d) Cefnogi adolygiad manwl pellach o'r gronfa hon a'r Gist Gymunedol, i'w gynnal o fewn tair blynedd i sicrhau bod y ddwy ffrwd ariannu yn dal yn ymarferol wrth fodloni anghenion y Cyngor.

**77. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.12 a.m.)

.....  
**Cadeirydd**